

Elin Jones AC

Y Llywydd

27 Mehefin 2019

Annwyl Lywydd

Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)

Ysgrifennaf ymhellach i'ch llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol (CLA), dyddiedig [13 Mehefin 2019](#), pan wnaethoch roi gwybodaeth fanylach am y cyfeiriad polisi yn ymwneud ag ariannu'r Comisiwn Etholiadol ac atebolrwydd y sefydliad mewn perthynas ag etholiadau datganoledig yng Nghymru.

Deallaf mai eich dewis chi yw:

- sefydlu 'Pwyllgor y Llywydd', i'w gadeirio gan 'gynrychiolydd nad yw'n perthyn i blaid' sy'n ddiuedd yn wleidyddol, y bydd y Comisiwn Etholiadol yn atebol iddo; ac
- i'r Comisiwn Etholiadol gael ei ariannu'n uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru (WCF).

Gwnaethom drafod mater ariannu'r Comisiwn Etholiadol ac atebolrwydd y sefydliad gyda chi ar [4 Ebrill 2019](#), ond nid oeddech wedi gwneud penderfyniad bryd hynny. Gan fod y Pwyllgor eisoes wedi trafod ei adroddiad a chytuno arno, nid ydym yn teimlo bod digon o amser yn weddill i ni ystyried y materion hyn yn llawn cyn y dyddiad cau ar gyfer adrodd yng Nghyfnod 1, sef 28 Mehefin 2019. Yn ogystal, nid ydym eto wedi gweld dim gwybodaeth fanwl y gallwn graffu arni'n llawn, ac felly rwy'n ysgrifennu atoch i ofyn am ragor o wybodaeth.

Ariannu o Gronfa Gyfunol Cymru

Yn eich llythyr blaenorol dyddiedig [7 Mai 2019](#), dywedasoch na fyddai darpariaethau o fewn Deddf y Cynulliad a fyddai'n rhoi hawl i'r Comisiwn Etholiadol dderbyn cyllid yn uniongyrchol gan Gronfa Gyfunol Cymru o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad oni bai bod Llywodraeth y DU yn rhoi caniatâd.

Roedd eich llythyr dyddiedig [13 Mehefin 2019](#), yn nodi bod eich swyddogion yn parhau i drafod gyda Llywodraeth Cymru, y Comisiwn Etholiadol a Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch datblygu polisi yn y maes hwn. Nodaf hefyd o lythyr y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit at y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, dyddiedig [25 Mehefin 2019](#), bod trafodaethau'n parhau rhwng Llywodraeth Cymru a Thrysorlys y DU o



ran mecanweithiau cyllido a bod dau opsiwn yn cael eu hystyried, y mae'r ddau ohonynt yn rhagdybio bod cyllid yn trosglwyddo o Gronfa Gyfunol y DU i Gronfa Gyfunol Cymru.

Byddwn yn ddiolchgar o gael diweddariad sylweddol ar y mater hwn, yn enwedig o ystyried y problemau posibl o ran cymhwysedd, pan fyddwch mewn sefyllfa i wneud hynny, cyn cyflwyno unrhyw welliannau os oes modd.

Ar fater ymarferol, o dan Reol Sefydlog 26.6 (xi) os yw Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru, rhaid i'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil gynnwys adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi ei farn ynghylch a yw'r codi gwariant yn briodol. Mae hyn yn ofyniad wrth gyflwyno Bil, fodd bynnag, nid yw'r un ddarpariaeth yn gymwys i welliannau a gyflwynir yn ddiweddarach, a allai gynnwys tâl ar Gronfa Gyfunol Cymru. Fel Cadeirydd y Pwyllgor Busnes, efallai yr hoffech ystyried yr anghysondeb hwn yn y Rheolau Sefydlog.

Yng ngoleuni hyn, byddwn yn eich annog i ystyried trafod y mater gyda'r Archwilydd Cyffredinol, er mwyn sicrhau y dilynir arfer gorau, a bod unrhyw welliant a gyflwynir yng Nghyfnod 2 neu Gyfnod 3 (pe bai'r Bil yn mynd ymlaen) sy'n cynnwys darpariaeth sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru ag adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol i gyd-fynd ag ef.

Pwyllgor y Llywydd

Yn ystod tystiolaeth i'r Pwyllgor ar 4 Ebrill 2019, mewn perthynas ag awgrym y Comisiwn Etholiadol y dylai fod yn atebol i 'Bwyllgor Llywydd', dywedasoed nad oeddech wedi gwneud penderfyniad terfynol ar y mater hwn eto ac y byddech yn croesawu cael barn y Pwyllgor Cyllid ar beth fyddai'n "fwyaf priodol".

Fel y cyfryw, mae ein hadroddiad yn adlewyrchu eich barn bryd hynny a daethom i'r casgliad nad oeddem yn gallu dod i benderfyniad ynghylch Pwyllgor y Llywydd nes i ni gael cadarnhad ar sut y byddai'r Comisiwn Etholiadol yn cael ei ariannu.

Fodd bynnag, rydych bellach wedi nodi mai Pwyllgor y Llywydd yw eich dewis chi, gyda'r Comisiwn Etholiadol yn cael ei ariannu'n uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru. Er bod y Pwyllgor yn nodi bod hwn yn fodel tebyg i Bwyllgor y Llefarydd ar y Comisiwn Etholiadol yn Senedd y DU, rydym yn pryderu am rôl y Pwyllgor Cyllid mewn perthynas â'i waith craffu ar gyllidebau. Rwy'n deall y bydd y mater hwn yn cael ei ystyried yn yr Alban yn fuan a byddwn yn ddiolchgar o gael gwybodaeth am y dull gweithredu arfaethedig o ran y mater hwn yn yr Alban a sut mae hyn yn cymharu â'r dull arfaethedig yng Nghymru.

Yn eich llythyr dyddiedig 13 Mehefin 2019, fe awgrymwch y byddai Pwyllgor y Llywydd yn craffu ar gyllideb ac adroddiad archwilio'r Comisiwn Etholiadol, ac ni fyddai "gorgyffwrdd â rôl y Pwyllgor Cyllid o ran craffu ar gyllideb Comisiwn y Cynulliad".

Fodd bynnag, fel y gwyddoch, ar hyn o bryd mae'r Pwyllgor Cyllid yn goruchwyllo'r holl gyrff a ariennir yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru. Yn ddiweddar, mae'r Pwyllgor



hefyd wedi ymgynghori a chytuno gyda'r cyrff hyn ar [Ddatganiad ar Egwyddorion](#) y mae'r Pwyllgor Cyllid yn disgwyl iddynt ei ystyried wrth wneud cynigion cyllideb.

Er y gallai'r Comisiwn Etholiadol gytuno ar yr un egwyddorion, bydd yn anodd i'r Pwyllgor Cyllid gynnal trosolwg o'r holl gyrff a ariennir yn uniongyrchol os yw cyllideb y Comisiwn Etholiadol yn cael ei hystyried gan Bwyllgor y Llywydd. Cred y Pwyllgor Cyllid ei bod yn bwysig bod ceisiadau cyllideb yn cael eu gosod yng nghyd-destun y cyfyngiadau cyllidebol yn y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Byddai'n ddefnyddiol pe gallech roi rhagor o wybodaeth am sut yr ydych yn rhagweld rôl y Pwyllgor Cyllid yn eich dull gweithredu arfaethedig, a pham na ddylai'r Comisiwn Etholiadol fod yn destun yr un gwaith craffu gan Bwyllgor â'r cyrff eraill. Caiff Swyddfa Archwilio Cymru, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Chomisiwn y Cynulliad i gyd eu hariannu'n uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru i sicrhau eu bod yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru, ond maent i gyd yn parhau'n destun gwaith craffu gan y Pwyllgor Cyllid.

Penderfyniad Ariannol

Bwriedir cynnal y ddadl Cyfnod 1 ar egwyddorion cyffredinol y Bil ddydd Mercher, 10 Gorffennaf 2019. Nodaf nad yw'r cynnig i gymeradwyo'r Penderfyniad Ariannol wedi'i drefnu eto. Fodd bynnag, byddwn yn eich annog, mewn trafodaeth â Llywodraeth Cymru, i ystyried peidio â gofyn am gymeradwyaeth y Cynulliad i Benderfyniad Ariannol nes bod y wybodaeth y gofynnir amdani yn y llythyr hwn yn cael ei darparu, a bod manylion ar gael ar y trefniadau ariannol ar gyfer y Comisiwn Etholiadol. Bydd hyn yn sicrhau bod y Cynulliad yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus mewn perthynas ag ymrwymo adnoddau.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Cwnsler Cyffredinol a Chadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Yn gywir,



Llyr Gruffydd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

